# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gorffwys Wellfield**

**Cartref Gorffwys Wellfield**
**1 Wood Lane, Penarlâg,**
**Glannau Dyfrdwy**
**CH5 3JD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

06/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gorffwys Wellfield

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pearlcare (Wellfield) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Mehefin 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn hapus a chânt eu cefnogi i fyw eu bywydau fel y mynnant. Caiff eu lleisiau eu clywed, a chaiff eu hannibyniaeth ei hybu. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl, a gwneir atgyfeiriadau amserol at y gweithwyr proffesiynol priodol er mwyn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen. Caiff y cartref ei gefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn edrych yn dda a chadarnhaodd pawb y gwnaethom siarad â nhw y gall y bobl gael bath neu gawod pryd bynnag y dymunant.

Darperir y gofal gan dîm o staff brwdfrydig a chyfarwydd a gaiff ei arwain gan uwch-reolwyr effeithiol. Mae'r ddogfennaeth gofal yn dangos bod y bobl yn cael gofal priodol yn unol â'u cynlluniau personol.

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl fyw ynddo sy'n ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd yn gynnes ac yn lân. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r cartref ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae adroddiad bob tri mis yr Unigolyn Cyfrifol a'r adolygiadau bob chwe mis o'r gwasanaeth yn cael eu cynnal yn unol â'r rheoliadau ac maent yn fanwl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol a chymdeithasol. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff gofal a thîm rheoli'r cartref. Gwelsom y staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl yn bwyllog gydag urddas a pharch. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys y cyfarwyddiadau sydd eu hangen ar y staff gofal i roi'r cymorth cywir i'r bobl a chânt eu hadolygu'n briodol. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol mewn modd amserol. Gwelsom fod gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am anghenion y bobl a'u bod yn cyfeirio at y bobl mewn modd cadarnhaol. Mae'n amlwg eu bod yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Gwelsom y bobl yn cael cymorth gan weithwyr gofal yn briodol mewn ffordd garedig a thyner, heb gael eu rhuthro.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn mwynhau cwmni eraill mewn amrywiaeth o ardaloedd eistedd. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyriol a'u bod yn parchu dymuniadau'r bobl. Mae dewis ar gael o ran prydau bwyd, a gwelsom fod y bobl yn cael dewisiadau amgen os nad ydynt yn hoffi'r hyn sydd ar y fwydlen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi a mynd i'r gwely pryd bynnag y maent am wneud hynny, a gwelsom enghreifftiau o hynny. Mae'r darparwr yn ceisio barn y bobl sy'n byw yng nghartref Wellfield yn ogystal â'r staff gofal.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio cofnodion y staff gofal. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Mae cyfres gadarn o archwiliadau rheoli ar waith sy'n sicrhau y caiff unrhyw risg ei lleihau.

Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolion. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a oedd yn dangos bod gwaith cynnal a chadw wedi cael ei nodi. Mae'n amlwg bod y darparwr yn buddsoddi yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan y staff gynllun cyfredol sy'n nodi sut y dylid darparu eu gofal. Mae cynlluniau personol ar waith a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd, a dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y ddogfennaeth yn cynnwys digon o gyfarwyddiadau er mwyn iddynt ymgymryd â'u rôl. Roedd y dogfennau y gwnaethom edrych arnynt yn cadarnhau hyn. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl yn nodi hanes eu cyflyrau meddygol yn fanwl ac yn adlewyrchu'r canlyniadau mewn dogfennaeth broffesiynol ac yn nogfennaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a drosglwyddir rhwng y staff, a oedd yn fanwl. Gwnaeth y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau bod y cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn rhoi disgrifiad cywir o'r unigolyn sy'n cael cymorth. Gwnaethom siarad â phobl a oedd yn teimlo bod y staff gofal yn rhoi cymorth iddynt mewn modd amserol, yn trafod eu gofal â nhw ac yn eu cefnogi yn y ffordd y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Dywedodd un unigolyn wrthym, *"Staff are good, they know what they are doing, they are very good and have good skills."*

Caiff gofal a chymorth eu darparu mewn ffordd sy'n amddiffyn ac yn cynnal diogelwch a llesiant yr unigolion. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn cefnogi'r bobl yn briodol, gydag urddas a pharch ac yn ôl cyflymder yr unigolyn. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod y staff gofal yn garedig ac yn dyner wrth roi cymorth iddynt. Dywedodd unigolyn wrthym, *"I like it here, I landed on my feet when I moved in…staff are brilliant with me…Staff are patient with me and are gentle."* Mae'r bobl yn edrych yn dda a gallant gael bath neu gawod pryd bynnag y dymunant. Gwelsom fod gofynion deietegol y bobl yn cael eu nodi'n glir yn nogfennaeth gofal y bobl a bod y wybodaeth hon ar gael i'r staff yn y gegin a'i bod yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn dogfennaeth broffesiynol.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn cael gofal a chymorth o ansawdd, a bod y darparwr yn ystyried eu dymuniadau personol. Gwelsom fod bwydlenni ar gael fel y gall y bobl ddewis pa fwyd yr hoffent ei gael, a gwelsom bobl yn cael rhywbeth gwahanol o'u dewis nhw ar ôl dweud wrth y staff nad oeddent yn hoffi'r opsiynau. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod hyn yn digwydd a bod y bwyd yn flasus. Dywedodd unigolyn wrthym, *"The food is good here; I get choice and I get enough."* Gwelsom y bobl yn mwynhau cwmni ei gilydd ac yn treulio amser gyda'r gweithwyr gofal. Gwelsom y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl yn briodol gan edrych i fyw eu llygaid ac ar gyflymder y person.

Gwnaethom edrych ar adroddiad annibynnol gan y fferyllfa yn dilyn ymweliad blaenorol gan fferyllydd a oedd yn canmol y broses o roi meddyginiaeth ac ailarchebu meddyginiaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth mewn amgylchedd sydd â digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhydd ac i wneud dewisiadau am ble maent am dreulio eu diwrnod. Mae lolfa fawr sy'n cynnwys cadeiriau breichiau cyfforddus a digon o olau naturiol. Mae digon o fyrddau a chadeiriau i bawb fwyta gyda'i gilydd os byddant yn dymuno gwneud hynny yn yr ystafell fwyta. Mae pob ystafell wedi'i haddurno mewn modd cartrefol a chyfforddus, sy'n hyrwyddo ymdeimlad o deulu a pherthyn gyda lluniau a phethau bach personol sydd o ddiddordeb i'r bobl. Mae ystafelloedd y bobl yn adlewyrchu eu hunigolrwydd ac maent wedi'u haddurno ag eiddo sy'n bwysig i'r unigolyn.

Mae gan y darparwr fesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar mewn cyflwr da a cheir tystiolaeth bod buddsoddiad wedi'i wneud yn y cartref yn y gorffennol, y presennol ac ar gyfer y dyfodol. Gwelsom gofnodion i ddangos bod gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch yn cael eu cynnal ar y system dŵr, y cyfarpar tân, y boeler a'r gosodiadau trydanol. Mae'r staff gofal wedi cael eu hyfforddi i wella diogelwch megis diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a symud a chodi a chario. Gwelsom asesiadau risg ar gyfer y cartref a'r unigolion.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff nifer priodol o staff gofal eu cyflogi er mwyn sicrhau bod y bobl yn cyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff gofal fod digon o staff ar ddyletswydd ac na chaiff y bobl eu gadael am gyfnodau hir. Cadarnhaodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw hyn hefyd. Gwelsom waith papur a oedd yn dangos bod y lefelau staffio yn cydymffurfio â'r lefelau a ddisgwylir gan y rheolwyr.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau o fewn yr amserlen a nodir yn y rheoliadau. Gwnaethom siarad â'r gweithwyr gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn cael digon o hyfforddiant er mwyn ymgymryd â'u rôl a dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff gofal yn eu cefnogi'n briodol. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant priodol. Gwelsom fod y trefniadau recriwtio staff yn gadarn a bod y gweithwyr gofal wedi'u cofrestru â'r cyrff priodol mewn perthynas â'u haddasrwydd i weithio. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd i'r preswylwyr.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau'r gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Caiff gwybodaeth am y bobl a'u safbwyntiau eu defnyddio i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Mae adolygiad sicrhau ansawdd bob chwe mis wedi cael ei gwblhau yn unol â'r rheoliadau sy'n ystyried safbwyntiau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal adolygiadau bob tri mis o'r gwasanaeth yn briodol. Gwelsom fod yr uwch-reolwyr yn cynnal amrywiaeth gynhwysfawr o archwiliadau, fel adolygiadau o gynlluniau personol, er mwyn sicrhau bod y cartref yn cael ei redeg yn effeithiol. Gwnaethom edrych ar dystiolaeth o'r prosesau sydd ar waith sy'n sicrhau bod y rheolwr yn cael cymorth priodol gan yr Unigolyn Cyfrifol a bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cael gwybod am unrhyw faterion yn y cartref yn rheolaidd. Mae amrywiaeth o bolisïau, fel polisi diogelu, polisi rheoli heintiau a pholisi meddyginiaeth, ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel ac fel y bwriadwyd.

Gall y bobl fod yn hyderus bod yr uwch-reolwyr yn cymryd materion o ddifrif ac yn gweithio i safon uchel. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“The managers are great.”* Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn cymryd materion o ddifrif ac yn darparu cymorth effeithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/06/2024